

Claire Marchant
Cyfarwyddwr Corfforaethol Llesiant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 26 a 30 Ebrill 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig o wiriadau sicrwydd ym mis Medi.

Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym wedi trefnu ein canfyddiadau gan gyfeirio at y pedair egwyddor: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Roedd yr awdurdod lleol wedi nodi'n glir ei fwriad strategol a gweithredol i gefnogi pobl ifanc agored i niwed, oedolion a gofalwyr drwy gydol pandemig COVID-19 (y pandemig).

Mae'r arweinwyr wedi parhau i gadw golwg ar y sefyllfa gyfnewidiol o ran COVID-19, ac o ganlyniad ceir cynlluniau clir ac ymarfer/ymatebion arloesol i ymdrin â'r heriau cysylltiedig. Mae'r arweinwyr a'r uwch-reolwyr yn parhau i roi ystyriaeth gyson i'r hyn sy'n gweithio'n dda ac i wahanol ffyrdd o weithio yn sgil y pandemig, ac maent yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r dulliau hyn.

Bu cyfradd haint COVID-19 ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn uchel iawn. Mae'r awdurdod lleol yn nodi ac yn rhagweld cynnydd o ran cymhlethdod anghenion a'r galw am wasanaethau. Mae'n parhau i gydweithio â phartneriaid i feithrin a chefnogi gwydnwch cymunedau.

Ar ddechrau'r pandemig, rhoddwyd systemau ar waith ar gyfer gweithio ystwyth/cyfunol. Nodwyd gennym fod cyswllt yn y gwasanaethau oedolion a phlant wedi cael ei gynnal ar ffurf rithwir, a wyneb-yn-wyneb lle bo angen, ac y dangoswyd ei bod yn briodol gwneud hynny drwy asesiad risg.

Cawsom ymatebion amrywiol gan bobl am eu profiad o gysylltu â'r awdurdod lleol ac i ba raddau roeddent yn teimlo bod yr awdurdod wedi gwrandao arnynt ac wedi eu parchu.

Dyweddodd gofalwyr wrthym am y cymorth roeddent wedi'i gael yn ystod y pandemig, a oedd yn cynnwys llinell gymorth ffôn 24/7 i ofalwyr a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig. Disgrifiodd un gofalwr y cymorth a gafodd yntau a'i berthynas fel "*tremendous*" ("*anhygoel*") ac aeth yn ei flaen i nodi sut y bu'r cymorth o fudd i'w lesiant. Gwelsom rai enghreifftiau lle y cynigiwyd asesiad gofalwr i ofalwyr, ond nid oedd tystiolaeth ysgrifenedig ar gael bob

amser i esbonio a oedd yr asesiad wedi cael ei gwblhau ac os felly, ganlyniad yr asesiad. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei chofnodi'n gyson a'i bod yn hygyrch. Gwelsom nifer bach o enghreifftiau lle y methwyd cyfleoedd i gynnig asesiad gofalwr.

Ar y cyfan, gwelsom fod dull gweithredu seiliedig ar ganlyniadau wedi'i ymgorffori mewn ymarfer yn y gwasanaethau oedolion, a bod hyn yn cefnogi trefniadau cydgynhyrchu a phrosesau i nodi canlyniadau personol. Roedd pobl yn cael cyfle i leisio eu barn ac roedd eu lleisiau'n cael eu clywed. Roedd materion yn ymwneud â chydysyniad, eiriolaeth, galluedd meddyliol a buddiannau pennaf yn cael eu hystyried fel mater o drefn yn gynnar yn y broses ymgysylltu.

Yn y gwasanaethau plant, roedd y rhan fwyaf o'r ffeiliau a welsom yn dangos bod gwybodaeth yn cael ei chasglu a oedd yn cynrychioli amgylchiadau'r unigolyn; roedd hyn wedi'i ategu gan drefniadau hwylus ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng asiantaethau, yn enwedig yn ystod camau cynnar ymyriad. Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod yr ymarferwyr a'r swyddogion adolygu annibynnol yn ymddangos fel petai ganddynt ddealltwriaeth o amgylchiadau a phrofiadau'r plant a'r teuluoedd roeddent yn gweithio gyda nhw.

Nodwyd ymarfer mwy amrywiol o ran cydgynhyrchu a gofyn am farn y plentyn a/neu gofnodi'r farn honno. Roedd y ffeiliau a welsom yn cadarnhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu cynnig mewn ffordd ragweithiol. Roedd angen gwella trefniadau cydgynhyrchu, yn enwedig yng nghyd-destun ymgysylltu, nodi canlyniadau personol, risgiau a darparu gwasanaethau er mwyn cyflawni newid cadarnhaol. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r angen i roi ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith yn ehangach, ac mae wrthi'n ymdrin â hyn.

Roedd y bobl yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Gwelsom enghreifftiau o daliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig a'u derbyn, gan helpu i roi hyblygrwydd i'r bobl o ran y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael. Ym mis Rhagfyr 2020, rhoddodd yr awdurdod lleol system llwybr carlam ar waith ar gyfer taliadau uniongyrchol. Disgrifiodd y staff effaith gadarnhaol y system i'r bobl o ran cyflymu'r broses ar gyfer cael gafael ar daliadau uniongyrchol. Roedd tystiolaeth bod yr awdurdod yn defnyddio taliadau uniongyrchol mewn ffordd ymatebol er mwyn darparu dull cymorth amgen.

Mae sicrhau llesiant y staff yn flaenoriaeth allweddol i'r arweinwyr a'r uwch-reolwyr. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd y cafodd llesiant y staff ei hyrwyddo; gan gynnwys cynnig gwasanaethau cwnsela a gweminarau llesiant. Gwelsom fod morâl y staff yn dda ar y cyfan. Roedd yr ymatebion i'r arolwg staff yn dangos bod y staff yn teimlo eu bod wedi cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr i wneud eu gwaith, a dywedodd y mwyafrif ohonynt fod eu llwythi achosion yn hydrin. Clywsom fod heriau wrth ddyrannu achosion mewn rhai timau oherwydd lefelau staffio. Dywedodd y staff wrthym fod cyfleoedd iddynt ddysgu a datblygu wedi parhau yn ystod y pandemig.

Atal – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Gwelsom fod dull atal integredig a chadarnhaol ar waith. Gwelsom enghreifftiau o weithwyr proffesiynol yn nodi plant a/neu oedolion yr oedd angen help a threfniadau amddiffyn arnynt ac yn gwneud atgyfeiriadau priodol i'r gwasanaethau cymdeithasol. Ar y cyfan, cafwyd ymateb prydlon i risgiau ac anghenion uniongyrchol.

Ceir ffocws strategol da ar atal, cynaliadwyedd y farchnad a datblygu gwasanaethau o hyd. Roedd yr enghreifftiau o ddatblygu gwasanaethau a ddyfynnwyd fel rhai a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar atal a hybu llesiant yn cynnwys y 'Rhaglen Meddwl am y Baban', sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, gan weithio gyda rhieni ar gam cynnar er mwyn cadw'r teulu gyda'i gilydd a cheisio atal babanod rhag dod yn rhan o'r system gofal.

Er gwaethaf rhai datblygiadau arloesol, mae rhestrau aros ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth gan gynnwys Gwasanaethau Help Cynnar i Blant a'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Cymunedol. Dywedwyd bod y rhestrau aros hyn wedi gwaethygu o ganlyniad i gynnydd mewn atgyfeiriadau a bylchau mewn rhai timau. Mae'r rheolwyr yn ymwybodol o'r rhestrau aros ac yn monitro'r bobl hynny sy'n aros am wasanaeth, yn cynnal asesiad risg ac yn adolygu eu statws blaenoriaeth.

Yn y gwasanaethau plant, er bod proses ar waith mewn perthynas â throsglwyddo achosion ar draws timau a gwasanaethau, nodwyd enghreifftiau gennym lle roedd y cymorth a roddwyd i rai teuluoedd yn rhy dameidiog. O ganlyniad, nid oedd rhai teuluoedd bob amser yn cael y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir. Mae angen rhagor o waith i sicrhau gwasanaethau di-dor a chydgyssylltiedig sy'n atal anghenion rhag dwysáu, ac sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel yn flaenoriaeth. Mae wedi adolygu ei ddull gweithredu a'i ymarfer yn y maes hwn, ac mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi dechrau lleihau ychydig. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r trafodaethau â'r staff fod anghenion y plentyn yn parhau'n rhan greiddiol o bob penderfyniad a wneir. Mae gan yr uwch-reolwyr a'r swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd a gwybodaeth dda amdano, ac maent yn gwbl ymrwymedig i'r agenda atal. Er enghraifft, sefydlwyd Grŵp Monitro Parhad sy'n anelu at olrhain teithiau plant drwy'r system 'derbyn gofal'. Yn ystod mis Gorffennaf 2020, cynhaliodd yr uwch-reolwyr a'r tîm cyfreithiol gofal plant archwiliadau er mwyn ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymatebion ymarfer, gan gynnwys mewn perthynas â phlant sy'n ymuno â'r system derbyn gofal; defnyddiwyd canfyddiadau'r gwaith hwn i lywio newidiadau yn y seilwaith gweithredol. Crëwyd pedair swydd ar gyfer gweithwyr cymorth ailuno er mwyn canolbwyntio ar ddarparu sefydlogrwydd a lle y bo'n briodol, roi cynlluniau ar waith i ddychwelyd plant i fyw'n lleol mewn lleoliadau neu â'u teuluoedd genedigol, lle y mae'n

ddiogel iddynt wneud hynny. Bydd angen i'r awdurdod barhau i fonitro'r maes hwn yn ofalus er mwyn nodi cynnydd ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg.

Yn y gwasanaethau oedolion, nodwyd gennym fod seilweithiau cefnogol ar waith ym mhob agwedd ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd, yn ogystal â systemau cyflenwi cysylltiedig. Gwelsom dystiolaeth o drefniadau cydweithio. Gwelsom a chlywsom fod yr amrywiol weithwyr proffesiynol yn nhimau rhwydwaith cymunedol integredig y gwasanaethau oedolion yn cydweithio i gefnogi llesiant a diogelwch y bobl a'r canlyniadau a nodwyd ganddynt. Er enghraifft, gwnaethom edrych ar achosion lle roedd pobl wedi nodi eu bod am gael eu cefnogi gartref, gan osgoi'r angen i fynd i'r ysbyty neu ofal preswyl. Roedd gweithwyr proffesiynol perthnasol yn gweithio gyda'r unigolyn ac roedd gwasanaethau a chyfarpar yn cael eu darparu er mwyn sicrhau y gellid cyflawni'r canlyniadau a nodwyd gan yr unigolyn.

Partneriaeth ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Mae ymrwymiad clir i gydweithio ym mhob rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yn amlwg bod cydberthnasau â phartneriaid wedi cael eu hatgyfnerthu yn ystod y pandemig. Nododd un partner, *“staff in the local authority were amazing the whole of last year, never seen collaborative working like that before”* (*“roedd staff yn yr awdurdod lleol yn anhygoel drwy gydol y llynedd, nid wyf erioed wedi gweld trefniadau cydweithio cystal”*). Dywedodd partner arall, *“Joint working is a real strength”* (*“Mae'r trefniadau cydweithio yn gryfder eithriadol”*).

Dywedodd darparwyr wrthym am ddulliau cyfathrebu da a chyfarfodydd cadarnhaol â chomisiynwyr awdurdodau lleol yn ystod y pandemig. Hwyluswyd y broses o weithio'n agos â darparwyr annibynnol drwy greu porth rhannu gwybodaeth deuffordd, gan alluogi pob darparwr i gael mynediad i wybodaeth hanfodol fel diweddariadau rheolaidd, enghreifftiau o arfer gorau, gwersi a ddysgwyd a chymorth gan gyfoedion. Yn ogystal, roedd staff monitro contractau wedi cynnal galwadau llesiant dyddiol â darparwyr annibynnol. Dywedodd darparwyr wrthym fod diwylliant o gydweithio a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd.

Roedd y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol wedi mabwysiadu dull gweithredu 'gweithlu cyfan'. Er enghraifft, cafwyd achosion lle y bu staff o'r cyngor wrth gefn ac y cawsant eu hadleoli i weithio mewn cartrefi gofal annibynnol er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth pan oedd aelodau o'r staff yn absennol o ganlyniad i COVID-19.

Ar lefel unigol, gwelsom enghreifftiau o gydberthnasau gwaith da rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n derbyn gofal a/neu gymorth. Roedd eu hymarfer yn barchus a gwelsom fod y staff yn ymdrechu i ddeall amgylchiadau'r bobl ac i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae gwasanaethau a swyddi integredig wedi darparu'r sylfeini ar gyfer cydweithio ym mhob rhan o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelsom fod ymarferwyr o sectorau a gwasanaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o'r ffordd yr oedd amrywiol weithwyr proffesiynol yn nhimau rhwydwaith cymunedol integredig y gwasanaethau oedolion yn cydweithio gan rannu gwybodaeth a defnyddio adnoddau. Mae dull gweithredu integredig timau rhwydwaith cymunedol y gwasanaethau oedolion yn enghraifft dda o fuddiannau amlwg trefniadau gweithio integredig wrth ddarparu dull gweithredu cydgysylltiedig o asesu a chefnogi pobl yn effeithiol er mwyn cyflawni eu canlyniadau.

Roedd trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn amlwg iawn yn yr Hwb Diogelu Aml Asiantaeth (MASH). Roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu'n brydlon ym mhob rhan o'r grŵp amlasiantaeth ac yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau a champau gweithredu mewn perthynas â llesiant a diogelwch pobl. Roedd enghreifftiau cadarnhaol o ddull gweithredu amlasiantaethol wrth reoli risgiau, ac o ymarferwyr, partneriaid ac asiantaethau yn cydweithio'n effeithiol i rannu gwybodaeth, gan nodi a monitro anghenion a risgiau plant ac oedolion agored i niwed.

Clywsom am enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi llesiant pobl. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys datblygu encilfa llesiant ac iechyd meddwl, a agorodd ym mis Rhagfyr 2020. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu fel rhan o drefniant cydweithredol rhwng y cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Heddlu De Cymru a darparwyr gwasanaeth eraill yn y trydydd sector. Clywsom hefyd am y gwaith cydweithredol rhwng yr awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol i gysylltu â thua 6200 o bobl ar y rhestr o unigolion a warchodir.

Llesiant – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod yr awdurdod lleol wedi parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i fod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddiogelwch a llesiant pobl y mae angen gofal a/neu gymorth arnynt.

Ar lefel unigol, gwelsom yr ymdrechion a wnaed i gynnal cysylltiad ystyrlon â phobl. Gwelsom dystiolaeth fod asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cwblhau mewn modd amserol ac yn gyffredinol, ymateb prydlon i anghenion a risgiau a nodwyd. Roedd perfformiad gwasanaethau plant mewn perthynas ag amseroldeb asesiadau a'r trefniadau ar gyfer darparu lleoliadau rheoleiddiedig wedi gwella.

Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi bwrw ati i ddatblygu, addasu a darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol er mwyn hybu llesiant pobl. Er enghraifft, lle roedd ei angen a lle roedd yn ddiogel gwneud hynny, roedd staff gwasanaethau dydd wedi darparu gwasanaethau allgymorth. Roeddent wedi cynnal cysylltiad â phobl a gofalwyr gan roi

cymorth a chynnig gweithgareddau drwy ddulliau digidol. Roedd y staff wedi creu blychau gweithgareddau ac wedi'u dosbarthu i'r bobl a fyddai wedi ymweld â'r hybiau cymunedol cyn y pandemig. Rhoddwyd pecynnau llesiant a gweithgareddau i ofalwyr ifanc. Gweithiodd y gwasanaeth atal a llesiant yn agos â phartneriaid i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau digidol a dosbarthiadau o bell a gyflwynwyd gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a cyfathrebu (TGCh) er mwyn helpu pobl yn uniongyrchol yn eu cartrefi. Clywsom sut roedd parhau i ddarparu gwasanaethau/cymorth wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddiogelwch a llesiant llawer o bobl.

Gwelsom ymatebion amserol i ymholiadau diogelu oedolion. Roedd dulliau gweithredu'r ymarferwyr yn ystyrlon ac yn drefnus ac roedd partneriaid a gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys, lle y bo'n berthnasol. Roedd yr oedolion mewn perygl yn rhan greiddiol o'r broses ddiogelu. Roedd materion diogelu yn cael eu hystyried mewn ffordd gynhwysfawr, gan ganolbwyntio nid yn unig ar risg ond gan hefyd ystyried canlyniadau'r bobl ac ansawdd bywyd. Roedd cynlluniau diogelwch clir yn cael eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru unrhyw risgiau a/neu anghenion a nodwyd.

Gwelsom arferion cymysg mewn perthynas â pha mor dda roedd yr awdurdod lleol yn ymateb i faterion diogelu plant. Roedd yr enghreifftiau gorau i'w gweld yn yr Hwb Diogelu Aml Asiantaeth lle y gwelwyd ymatebion amserol a threfniadau ar gyfer casglu gwybodaeth yn brydlon er mwyn helpu i fynd i'r afael â phryderon uniongyrchol mewn perthynas ag amddiffyn plant. Mewn rhai ffeiliau eraill a welsom, roedd yr ymatebion yn araf ac roedd angen mwy o ffocws wrth ddatblygu'r cynllun gofal a chymorth.

Mae recriwtio a chadw gweithlu sefydlog yn parhau'n flaenoriaeth i'r awdurdod lleol. Yn y gwasanaethau oedolion, gwelsom fod staff asiantaeth wedi cael eu defnyddio mewn rhai timau er mwyn atgyfnerthu'r gallu i ymateb i'r galw cynyddol. Roedd swyddi gwag o fewn rhai o'r timau plant. Roedd staff asiantaeth yn cael eu defnyddio i lenwi'r bylchau hyn, ond disgrifiwyd y cyflenwad fel cyflenwad cyfyngedig. Roedd materion o ran capasiti, ynghyd â chymhlethdod achosion, yn achosi pwysau yn rhai o'r timau plant. Roedd y rheolwyr wedi ceisio cynyddu capasiti'r timau hyn.

Clywsom am y model gweithredu newydd ar gyfer y tîm plant anabl a throsglwyddo, a'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth cyfranogi ac ymgysylltu ar gyfer plant anabl. Dywedodd rhai ymarferwyr wrthym y gellid gwneud gwelliannau er mwyn atgyfnerthu'r broses o integreiddio'r tîm sy'n gweithio gyda phlant anabl o dan 14 oed. Nododd rhai ymarferwyr y gellid gwella'r ddarpariaeth cymorth ymddygiadol arbenigol i blant anabl ag anghenion cymhleth.

Dull:

- gwnaethom adolygu'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol
- gwnaethom siarad â phobl a oedd yn derbyn, neu a oedd wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o'r system gofal

- gwnaethom edrych ar 39 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal deg o gyfweiliadau olrhain achosion ag ymarferwyr a chynrychiolwyr partneriaid perthnasol
- gwnaethom gynnal wyth arolwg i; bobl oedd â phrofiad o ofal a chymorth, darparwyr, sefydliadau trydydd sector, staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- gwnaethom arsylwi ar un o gyfarfodydd y pwyllgor craffu a throsolwg
- gwnaethom siarad ag ymarferwyr, rheolwyr, darparwyr, penaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwr, aelodau etholedig

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru